Cenn@d

TACHWEDD 13 2024 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 194

# Mae pobl dda yn gofalu am eu hanifeiliaid …
## (Diarhebion 12:10a; beibl.net)







Mae cyfnod y Diolchgarwch wedi dod i ben eleni eto. Ac er iddo fod yn gyfnod prysur, cefais lawer iawn o hwyl a chroeso wrth deithio o amgylch capeli ac ysgolion yr ardal i rannu neges o ddiolch.

Ond eleni fe wnaethon ni benderfynu gwneud rhywbeth bach yn wahanol yn yr ofalaeth. A hynny oedd diolch i'r anifeiliaid sydd yn rhan mor bwysig o'n bywydau.

Does dim amheuaeth nad yw creaduriaid bach a mawr yn rhan annatod o'n cread, ac roeddem am ddiolch i'r anifeiliaid sydd yn cynnig cynnyrch, cwmnïaeth a gofal. Fe wnaeth Duw greu anifeiliaid am sawl rheswm gwahanol, ac fe roddodd orchymyn inni ofalu am y creaduriaid sy'n byw ar yr un ddaear â ni.

Felly, aethon ni ati i drefnu 'Addoliad yr Anifeiliaid' yn Ebeneser Dyfed, er nad oedd dim un ohonom yn hollol siŵr beth i'w ddisgwyl. Penderfynwyd gwneud casgliad at Ganolfan Anifeiliaid Llys Nini, sy'n gwneud gwaith arbennig yn cynnig llochesi i anifeiliaid strae.

Yn ein hoedfa fe ddaeth criw o Ysgol Gynradd Eglwyswrw i ganu, a diolch i'r plant a'r staff am eu cefnogaeth. Siaradodd Rebecca Miles Harpwood â'r gynulleidfa arbennig a ddaeth ynghyd am y gwaith pwysig mae'r ganolfan yn ei wneud, gwaith sydd yn cael ei ariannu'n gyfan gwbl gan roddion y cyhoedd.

Rhannodd Cleif Harpwood hanes emosiynol yr anifeiliaid y mae ef a Rebecca wedi'u mabwysiadu dros y blynyddoedd. Cafodd pawb eu swyno gan y lluniau a'r fideo yn ystod yr oedfa. Roedd un hanes arbennig gan Cleif i'w rannu gyda ni, am y ddau hysgi wnaethon nhw eu mabwysiadu. Roedd y ddau wedi cael eu cadw mewn caets am y rhan fwyaf o'u bywydau, ac erioed wedi gweld eira cyn iddyn nhw fynd i fyw gyda nhw.

Ysgrifennodd Cleif ddarn i gofio am un ohonyn nhw, sef Ollie:

> Byw'n frenin, brin flwyddyn,
> Cariad oedd dy chwant, hyn oedd dy haeddiant.

Roedd Seren y llo, yr ŵyn swci, y ceffylau a'r cŵn wedi cael eu maldodi'n llwyr yn ystod y gwasanaeth. A braf oedd gweld pawb yn aros i gymdeithasu yn dilyn yr oedfa, a neb ar ryw hast i fynd.

Dyw cynnal gwasanaethau o'r fath ddim yn rhwydd o bell ffordd, ond ein cred ni yw ei bod yn bwysig agor y capel i rywbeth bach yn wahanol, a diolch i'r anifeiliaid sydd yn rhan mor bwysig o'n cymdeithas.

Mae'r adnod o lyfr y Diarhebion yn sôn mai pobl dda sydd yn gofalu am eu hanifeiliaid. Felly, mae'n ddyletswydd arnom i wneud cymaint ag y gallwn i sicrhau bod y rhai hynny sydd heb gartref neu wedi cael eu hesgeuluso oherwydd difaterwch neu greulondeb yn cael gofal. Ar y Sadwrn yma ym mis Medi, er ei bod yn weithred fach o'i gymharu â beth sydd wir ei angen, fe wnaeth pawb adael yr oedfa â gwên ar eu hwynebau a diolch yn eu calonnau am y creaduriaid sydd o'n hamgylch o ddydd i ddydd, ac yn rhan bwysig iawn o'n bywydau.

*Sian Elin Thomas*

Teyrnged i Denis Young **Tudalen 3**

Cofio Diwygiad Blaenannerch **Tudalen 4**

Pynciau Perthnasol – colofn Rosa Hunt **Tudalen 8**

# Gofalaeth Caron a'r Cylch

Yn ystod y flwyddyn bydd capeli Gofalaeth Caron fel arfer yn cynnal pedwar gwasanaeth ar y cyd, yn ogystal â gweithgareddau arbennig fel Noson Baned a Phancos a thaith gerdded. Mae'r casgliadau ariannol yn cael eu cyfrannu tuag at achosion da sydd wedi eu cytuno o flaen llaw. Dewis elusennau'r flwyddyn a aeth heibio oedd Banc Bwyd Llanbed a'r Uned Strôc yn Ysbyty Bronglais.

Cefnogir ein hymgyrch gan Ymddiriedolaeth Blakemore, Spar, Tregaron. Diolch arbennig i aelodau Gofalaeth Caron yng nghapeli Bethesda, Llanddewibrefi; Capel Bwlchgwynt, Tregaron; Capel Bwlchllan a Chapel Penial, Blaenpennal. Diolch hefyd i ffrindiau'r achos am eu haelioni. Cyflwynwyd £807.30 i'w rannu'n gyfartal rhwng y ddwy elusen.

Rydym ar hyn o bryd yn pacio bocsys i'w hanfon yn anrhegion i blant a phobl ieuainc mewn angen ar draws y byd drwy ymgyrch Samaritan's Purse, ac rydym yn ddiolchgar i'n gweinidog, y Parchedig Carwyn Arthur, am ei arweiniad.

*Eirwen James*



Cyflwyno siec i Uned Strôc, Ysbyty Bronglais




Cefnogaeth gan Ymddiriedolaeth Blakemore, Spar, Tregaron

# Cyfarfodydd Hanner Blynyddol Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion

Capel Salem, Llangennech, oedd cartref Cyfarfodydd Hanner Blynyddol y Gymanfa a gynhaliwyd ar 23 Hydref dan lywyddiaeth y Parch John Treharne, Llywydd y Gymanfa. Agorwyd y gynhadledd yn y prynhawn gyda'r Is-lywydd, Mrs Dawn Richards, Providence, Cwm-du, yn cymryd at y rhannau arweiniol.

Trafodwyd materion perthnasol i'r Gymanfa cyn gwahodd y Parch Ddr Christian Tucker-Williams i'n diweddaru ar gynlluniau Adroddiad 2041 Undeb Bedyddwyr Cymru.

Siaradwr gwadd y prynhawn oedd John Settatree ar ran y Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr (BMS) a chafwyd anerchiad ganddo'n dangos gwaith y mudiad ar draws y byd.

Yn dilyn sgwrsio a chymdeithasu o gwmpas y byrddau yn y festri aethom yn ôl i'r capel ar gyfer yr Oedfa Bregeth. Y cyn-lywydd, Eurfyl Lewis, arweiniodd y defosiwn cyn i ni gael y fraint o glywed gweinidog mwyaf newydd y Gymanfa, y Parch Gruffudd Jenkins, yn pregethu.



Hyfryd oedd clywed am fenter Eglwys Maescanner, Dafen, yn galw gweinidog i'w gwasanaethu a dymunwn bob bendith ar y gwaith yn yr eglwys honno. Cyflwynwyd casgliad yr oedfa at waith y BMS a throsglwyddwyd y swm anrhydeddus o £300 i'r gronfa.

Diolch yn fawr i bawb am gefnogi'r cyfarfodydd ac i weinidog, swyddogion ac aelodau Salem am y croeso a'r paratoadau ymlaen llaw ac i Alison Goodwin ac Allan Fewster am eu gwasanaeth wrth yr organ.

Bydd y Gymanfa yn cwrdd nesaf drwy gyfrwng Zoom ar gyfer yr Oedfa Weddi Ddechrau'r Flwyddyn nos Iau, 9 Ionawr, ac eto nos Fercher, 16 Ebrill, ar gyfer Oedfa Bregeth y Pasg. Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol ddydd Mercher, 21 Mai, yng Nghapel y Tabernacl, Llwynhendy.

*Rhidian Evans*

# Cofio’r Parch. Denis Young

Cynhaliwyd angladd y Parch. Denis Young ar 26 Hydref yn Amlosgfa Aberystwyth. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parch. Peter Thomas, a roddodd grynodeb o fywyd Denis, o’i fagwraeth yn Nre-fach Felindre, sir Gâr, i’w brofiadau ar y rheilffordd, fel siopwr yn Aberteifi, diploma mewn *salemanship*, cyn ymdeimlo â’r alwad i’r weinidogaeth Gristnogol fyddai’n golygu mynd yn fyfyriwr i Goleg y Bedyddwyr, Bangor, yn 1951. Yn ei yrfa weinidogaethol gwasanaethodd yn eglwysi Blaen-y-cwm, Rhondda; Caersalem, Llanelli; Beulah, Cwm-twrch a Hebron, Caergybi.

Roedd ar dân dros rannu’r efengyl ymhell ac agos, a bu’n gefnogwr brwd i Gymdeithas Genhadol y Bedyddwyr (BMS), a’i gwaith yn Brasil yn arbennig. Ymwelodd â’r wlad yn 1975 a daeth yn aelod o bwyllgor Tŷ Brasil, oedd yn cynnig llety a chefnogaeth i genhadon. Roedd yn un o gynrychiolwyr Cymru yng Nghyngres gyntaf Lausanne ar efengylu rhyngwladol yn 1974.

Fe’n harweiniwyd mewn defosiwn gan y Parch. Rhys Llwyd a Menna Machreth a Trystan Gwilym o Gaersalem, Caernarfon. Rhoddwyd neges gan y Parch. John Treharne yn seiliedig ar destun o ddewis Denis, sef Mathew 7:24–7, y tŷ ar y graig a’r tŷ ar y tywod. Ceisiodd gyflwyno’i neges gyda rhai o ddywediadau bachog a gwreiddiol Denis ei hunan.

Dyma gyngor y Gwaredwr i wrando a gweithredu ei Air, sydd fel adeiladu tŷ ein bywyd ar graig. Iesu Grist yw craig ein hiachawdwriaeth, y graig a holltwyd er ein mwyn ar y groes; y guddfan i ni gael gweld gogoniant Duw; y tir cadarn dan draed o’i gymharu â phydew mwdlyd pechod; y graig gafodd ei tharo er mwyn i ni gael dŵr bywiol yr Ysbryd Glân, a’r graig sy’n rhoi mêl gras a chariad Duw i ni.

Mae gair Iesu yn y Bregeth ar y Mynydd yn dechrau gyda’r Gwynfydau, disgrifiad o’r person dan fendith Duw a dylanwad yr Ysbryd, y tlawd yn yr ysbryd. Roedd Denis mor hoff o’r pennill:

> Dyma gyfarfod hyfryd iawn,
> myfi yn llwm a’r Iesu’n llawn;
> myfi yn dlawd heb feddu dim,
> a Iesu’n rhoddi popeth im.

Byddai’n dweud, ‘Rhaid i ni ddod at yr Iesu yn ein carpie … wedi’n stripo gan yr Ysbryd Glân.’

Yna’r rhai sy’n galaru am bechod: soniai Denis am fynd mewn car drwy dref, ‘ac ry’ch chi’n gweld ffrynt y tai. Ond yn y trên ry’ch chi’n gweld y cefnau, ac mae Duw yn gweld cefnau ein “tai” ni’.

Yna’r rhai addfwyn: byddai Denis yn sôn am ‘fynd i’m hangladd fy hunan’, yn gorfod marw i’r hunan yn gyson. Siaradai’n gryf yn erbyn balchder ysbrydol: ‘Rhaid i ni beidio â thynnu llinyn mesur dros bawb arall.’

Roedd yn drugarog, ac yn ffrind i ystod eang iawn o bobl, gan gynnwys rhai oedd yn anghytuno ag ef ar yr Efengyl. O ran y pur o galon, byddai Denis yn ein rhybuddio rhag cael ‘pen (gwybodus) chwyddedig fel balŵn, ond calon fel *pimple*’. Roedd Denis yn dangnefeddwr, yn berson sensitif a deimlai ddiffyg trugaredd eraill i’r byw.

Roedd Denis yn graig i eraill oherwydd bod Iesu Grist yn Graig iddo yntau. Treuliodd cymaint o’i fywyd yn annog ac arwain eraill at y Graig drwy dystio’n bersonol i’r Gwaredwr. Roedd ganddo ddawn o ffocysu ar Iesu mewn sgwrs ddyddiol. Roedd cyd-weithiwr iddo ar y rheilffordd wedi tystio’n bersonol i Denis ei helpu i ddod i adnabod Crist yn bersonol.

Roedd Denis yn allweddol yn sicrhau ymgyrch ‘Dweud wrth Gymru’ yn 1989. Roedd yn bregethwr ffyddlon yn yr awyr agored yn ogystal ag yn y pulpud. Cafodd ei ddefnyddio gan yr Ysbryd Glân, a thystiodd ei fod fel *spectator* wrth weld Duw yn gweithio drwyddo.

Collodd Denis ei rieni yn eithaf ifanc ac roedd yn cydymdeimlo ag eraill mewn treialon. Roedd yn gwerthfawrogi Arvonia, ei briod, a’i chefnogaeth arwrol trwy dreialon y degawdau, ‘Ble fydden ni heb ein gwragedd?’ Roedd wrth ei fodd ymhlith ei deulu annwyl ac yn eu caru’n angerddol. O ran treialon y weinidogaeth, roedd yn ffrind triw i gyd-weinidog gyda chynghorion amhrisiadwy megis, ‘Rwy’n cofio’r *gems*, nid y *fire extinguishers*!’

Roedd wedi helpu dwsinau yn storm angau, ‘wrth y rhydiau’. Wrth i Denis wynebu’r storm yma, gofynnais iddo beth ddylwn i ei ddarllen, a’r ateb oedd ‘byr, ysgafn gystudd’.

Mae’r graig hefyd yn ein diogelu yn storm y Farn sydd i ddod. Gobaith mawr Denis oedd yr Iawn (roedd mor hoff o Feibl William Morgan) a dalwyd ar y groes. Gan fod yr Arglwydd Iesu wedi profi cosb a dicter Duw yn erbyn pechod ar Galfaria, does dim condemniad i neb sy’n ymddiried ynddo Fe.

Cafwyd teyrnged hyfryd wedyn gan Einir a Llinos yn darlunio Denis fel tad, nid fel gweinidog. Roedd pwyslais ar yr hyn **nad** oedd Denis, sef rhyw ‘sychbren sych-dduwiol, hunandybus a beirniadol’. Doedd e ddim mor hoff o’r teitl ‘Parchedig’ a gwell o lawer fyddai ganddo ‘y Pechadur Denis Young!’ Os nad oedd rhywbeth da i’w ddweud am rywun, gwell dweud dim. Roedd yn gallu codi uwchben sefyllfaoedd anodd, gan gynnwys llesgedd diwedd oes, drwy ganolbwyntio ar yr Arglwydd Iesu. Roedd yn dwlu myfyrio ar ei Berson hawddgar:

> Iesu, difyrrwch f’enaid drud
> Yw edrych ar dy wedd,
> Ac mae llythrennau d’enw pur
> Yn fywyd ac yn hedd.

Trwy’r Arglwydd Iesu fe gofleidiodd fywyd yn ei holl gyflawnder. Roedd wrth ei fodd gyda’r plant, yr wyrion a’r gorwyrion hefyd.

Nawr ry’n ni’n hyderus bod dathlu mawr yn y nef gan fod Denis Young wedi cyrraedd gyda llond y lle o ‘Diolch-ŵ!’ Coron ar y gwasanaeth oedd cael canu emyn Denis ar thema esgyniad Iesu.

*John Treharne*

Yn rhifyn 187 (25 Medi) roeddem yn llongyfarch y Parch. Denis Young ar dreulio 70 mlynedd yn y weinidogaeth. Estynnwn ein cydymdeimlad â’r teulu, a diolchwn am ei weinidogaeth.

# Cofio Diwygiad Blaenannerch

**Yn y cyfarfod yng nghapel Blaenannerch, Ceredigion, bnawn Sul, 29 Medi, i nodi union 120 mlynedd er dechrau'r cynnwrf ysbrydol a ddaeth yn Ddiwygiad 1904/05 yn y man, cafwyd cyflwyniad i'r hanes gan Dr Eryn White, Aberystwyth. Rydym yn ddiolchgar iddi am gael cynnwys ei sylwadau yma.**

Mae'n briodol ein bod ni'n ailymweld heddiw â hanes yr hyn a ddigwyddodd ym 1904, gan fod ailymweld â phrofiadau'n rhan hanfodol o Ddiwygiad 1904, yr olaf mewn cyfres o ddiwygiadau'n cychwyn gyda'r Diwygiad Methodistaidd yn y 1730au.

Credai William Williams, Pantycelyn, fod diwygiad yn digwydd fel cylchdro, fod pob cyfnod o gyffro yn cael ei ddilyn gan gyfnod mwy tawel a digyffro, ond ymhen amser byddai rhyw deimlad yn datblygu fod y tawelwch yn troi'n ddifaterwch a bod angen adnewyddu a chyffroi o'r newydd. Felly datblygai cyfnod o weddïo a gobeithio am adfywiad o'r newydd. Cytunai Thomas Charles fod diwygiadau cyson yn angenrheidiol er mwyn atal crefydd rhag troi'n ddiymadferth, gan golli graen a gogoniant, meddai. Felly, roedd teimlad o ddisgwyl i ddiwygiad ddigwydd yn gyson. Dywedwyd erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg fod disgwyl diwygiad bob deg mlynedd. Roedd ymwybyddiaeth erbyn hynny o'r elfennau oedd yn dueddol o gyffroi diwygiad ac fe gynhaliwyd cyfarfodydd er mwyn creu'r amodau i geisio ennyn hynny.

Erbyn dechrau'r ugeinfed ganrif, roedd nifer o'r enwadau wedi sefydlu mudiadau i ganolbwyntio ar y genhadaeth gartref. Bu cyfrannu mawr at y Genhadaeth Dramor, ond ar yr un pryd teimlwyd bod angen efengylu'n nes at adref, gyda dulliau Byddin yr Iachawdwriaeth yn cael eu hefelychu i raddau. Y Mudiad Ymosodol (y *Forward Movement*) oedd mudiad yr Hen Gorff, ac roedd gan y Bedyddwyr y Gymdeithas Genhadaeth Gartref. Sefydlwyd Rosina Davies a Josiah Towyn Jones fel cenhadon gan yr Annibynwyr. Nid y bugeilio cyson ar gapeli a ddisgwylid gan y rhan fwyaf o weinidogion oedd nod y rhain, ond ymgyrchu'n eang i geisio ennyn brwdfrydedd crefyddol. Erbyn hynny, mae'n deg dweud fod recriwtio pobl o'r tu allan yn llwyr, heb gysylltiad â chrefydd, yn llai tebygol o ddigwydd. Yr hyn yr oedd y diwygiadau'n ei wneud yn hytrach oedd atgyfnerthu ffydd y rheini oedd eisoes yn aelodau a hefyd ddenu i mewn y garfan oedd yn cael eu nabod fel y 'gwrandawyr' oedd yn mynychu ond heb fod yn gyflawn aelodau. Llwyddai diwygiad yn aml i droi'r rheini'n fwy ymroddedig a'u hargyhoeddi i ymaelodi'n llawn.

Nid oes amheuaeth nad oedd 1904 yn ddiwygiad mawr. Wrth edrych ar hanes diwygiadau, mae'n syndod faint o ddiwygiadau dylanwadol wnaeth gychwyn yn y sir hon, gan gynnwys Diwygiad Llangeitho ym 1762. Hwnnw oedd y diwygiad sylweddol cyntaf ar ôl y diwygiad Methodistaidd gwreiddiol yn y 1730au. Datblygodd yn ardal Llangeitho yn y lle cyntaf, sef plwyf Daniel Rowland, un o bregethwyr mwyaf dylanwadol y cyfnod. Roedd yn gysylltiedig â'i bregethu ef, ond hefyd â chyhoeddi cyfrol o emynau Pantycelyn, *Caniadau y Rhai Sydd ar y Môr o Wydr*, oedd yn cynnwys rhai o'i emynau mwyaf poblogaidd, gan gynnwys 'Mi dafla'i maich' ac 'Arglwydd, arwain trwy'r anialwch'. Y diwygiad hwn wnaeth helpu i sefydlu Methodistiaeth fel mudiad cenedlaethol ac nid mudiad a ddylanwadai ar dde Cymru'n unig. Fe wnaeth hefyd sefydlu'r egwyddor o ailymweld â diwygiad ac ail-greu'r profiadau ysbrydol oedd yn gysylltiedig. Dyna gychwyn traddodiad Cymru fel gwlad y diwygiadau.

Diwygiad sylweddol arall â'i wreiddiau yn sir Aberteifi oedd Diwygiad 1859. Cychwynnodd y cyffro yn Nhre'r-ddôl, yng ngogledd Ceredigion. Un o'r ffigurau allweddol oedd Humphrey Jones, un o'r Wesleiaid, oedd wedi dychwelyd adref ar ôl tair blynedd yn pregethu i gynulleidfaoedd Cymry Gogledd America. Fel Evan Roberts, roedd yntau'n 26 mlwydd oed adeg ei brofiad o fod ar ganol berw diwygiad. Cafodd gefnogaeth gan weinidog y Methodistiaid Calfinaidd yn yr ardal, Dafydd Morgan, Ysbyty Ystwyth, a bu'r ddau'n cydweithio ac yn cynnal nifer o gyfarfodydd, gyda Jones yn arddel rhai o'r dulliau a welsai ymhlith efengylwyr America. Tueddid yn America i weld diwygiad fel rhywbeth y gellid ei danio drwy ddefnyddio rhai camau penodol. Ym 1835 cyhoeddodd yr Americanwr Charles Finney ei syniadau ynghylch sut i ennyn diwygiad yn fwriadol. Ond cafwyd ymateb cymysg iawn i hyn yng Nghymru, gyda chred fod troi'r ffenomenon yn rhyw fath o wyddoniaeth yn tanseilio'r syniad mai tywalltiad gras oedd yn bennaf cyfrifol ac nid cynllunio dynol.

Felly, roedd gobeithio a gweddïo am adfywiad, ond dim sicrwydd pendant y byddai'n dilyn yn anochel. Byddai gwreiddiau lleol i'r diwygiadau mawr fel arfer, ond bu hefyd nifer o ddiwygiadau llai eu dylanwad oedd heb ledu tu hwnt i un capel neu un ardal neilltuol. Ym Mhwlch-y-groes, sir Benfro, ym 1800, er enghraifft, bu storom daranau enbyd yn ystod un oedfa, a'r gynulleidfa'n ofni bod diwedd y byd wrth law ac yn gweddïo am achubiaeth. Enynnodd y profiadau o arswyd a diolchgarwch am gael eu harbed ddiwygiad a effeithiodd ar y cylch yn ystod y flwyddyn honno, ond heb ledu ymhellach. Yn yr un modd, roedd achosion o'r geri (y *cholera*) yn ffactor, mae'n debyg, mewn rhai diwygiadau yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn ardaloedd diwydiannol y de yn enwedig, gyda phobl yn wynebu ofn marwolaeth ac yn troi'n ôl at eu ffydd.

Ychwanegai'r diwygiadau hyn i gyd at aelodaeth yr enwadau. Amcangyfrifir bod 80,000 o aelodau wedi'u hychwanegu i'r enwadau yng Nghymru yn ystod cyfnod diwygiad 1859. Fe deimlwyd yr effaith ym Mlaenannerch hefyd. Cyfeiriodd dyddiadur Evan Jones, Ffrwdwenith, aelod yn y capel, at William Pierce yn pregethu 'yn y sêt fawr yn bloeddio gyda rhyw ddylanwad ofnadwy, a'r fraich dde i fyny, a'r cadach gwyn yn y llaw, ac yn chwyrlio fel whiligogan, nes y rhoddodd naid yn llythrennol dros *railing* y côr mawr allan i ganol y llawr'. Felly, doedd bwrlwm diwygiad ddim yn anghyfarwydd yng nghapel Blaenannerch. Gan fod nifer o'r rheini a effeithiwyd gan ddiwygiad 1859 yn fyw o hyd adeg diwygiad 1904 gallent dystio eu bod yn teimlo'r un ysbryd ar waith. Un o'r rhain oedd Cranogwen, oedd wedi ei heffeithio'n drwm gan ddiwygiad 1859.

Roedd y cylchdro o ddiwygiadau'n gyffredin felly, gydag elfennau tebyg: y cyfarfodydd yn ceisio ennyn ymateb, y pregethu pwerus, pwrpasol, a'r canu emynau. Arferai rhai cantorion deithio gyda Evan Roberts, gan gynnwys Annie Davies o Faesteg, oedd yn ferch ifanc deunaw mlwydd oed, â llais hyfryd. Câi effaith mawr, yn enwedig wrth ganu emyn Gwilym Hiraethog 'Dyma gariad fel y moroedd', ar y dôn Cwynfan Prydain/ Britain's Lament, sy'n galw am lais soprano uchel a phur.

(parhad ar y dudalen nesaf)

*Cofio Diwygiad Blaenannerch*
*(parhad o dudalen 4)*

Mae'n briodol ein bod ni'n canu rhai o emynau'r diwygiad heddiw. Roedd tröedigaeth adeg diwygiad yn brofiad unigol ond ar yr un pryd yn brofiad cymunedol, a'r canu cynulleidfaol yn rhan bwerus o'r cyd-deimlo hwnnw. Cyfieithwyd rhai emynau diwygiadol o waith Moody a Sankey yn y gyfrol *Sŵn y Jiwbili* (1874–8) ond er bod rhai caneuon newydd fel 'Achub hen rebel fel fi' yn boblogaidd iawn, dychwelwyd hefyd at yr hen ffefrynnau, gan Morgan Rhys, Pantycelyn, Elfed, Ieuan Gwyllt ac eraill. Y geiriau yn aml iawn oedd yn bwysig, oherwydd eu bod yn helpu pobl i gyfleu'r hyn roeddent yn ei deimlo a'r profiadau hynny ar adegau'n rhai anodd dod o hyd i'r geiriau i'w disgrifio'n iawn. Byddai geiriau'r emynwyr yn aml yn gymorth i grisialu pethau felly: ymadroddion fel 'tywysog bywyd pur yn marw' yn taro o'r newydd a dyblu'r gân yn achos llinellau fel 'pwy all beidio â chofio amdano' yn ffocysu ar y teimladau ac yn eu pwysleisio. Ond atgyfnerthu'r profiadau oedd yn cael eu cymell gan y pregethu a'r gweddïau yn y cyfarfodydd oedd gwaith y canu mewn gwirionedd. Teimlai rhai beirniaid fod ychydig gormod o bwyslais ar ganu ynddo'i hun yn ystod diwygiad 1904, o'i gymharu â 1859, ac efallai mai dyna un o'r rhesymau pam nad oedd yr effeithiau wedi parhau mor hir.

Yr awydd am ddiwygiad oedd yr elfen bwysig drwyddi draw. Y rheini a ddylanwadwyd yn bennaf drwy'r bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd y rheini oedd â rhyw gysylltiad â chrefydd eisoes, efallai heb ddod yn aelodau llawn eto, neu efallai wedi gwrthgilio am gyfnod ac yn cael adnewyddiad drwy'r diwygiad. Drwy'r ysgol Sul, y cwrdd gweddi, y seiat a'r Band of Hope, trwythwyd llawer iawn o'r Cymry yn nhraddodiad y diwygiadau ac yn y syniad o ddiwygiad fel rhywbeth i ddyheu amdano.

Dyma sydd i'w weld yn y misoedd yn arwain at ddiwedd Medi 1904. Gwelid rhyw fywiogrwydd newydd eisoes ar droed ychydig i'r gogledd tua'r Ceinewydd ac Aberaeron, yn enwedig ymhlith pobl ifanc y Cei o dan weinidogaeth Joseph Jenkins. Mor gynnar â Chwefror 1904, crëwyd tipyn o stŵr mewn cyfarfod yn y Cei oherwydd cyfraniad Florrie Evans, a gododd pan ofynnwyd a fyddai rhywun o'r gynulleidfa yn barod i ddweud gair o brofiad. Dywedodd hithau, 'Yr wyf yn caru Iesu Grist â'm holl galon'. Mae'n amlwg fod symlrwydd a diffuantrwydd y geiriau hyn gan ferch ifanc swil na fyddai fel arfer wedi mentro siarad yn gyhoeddus wedi gwneud cryn argraff ar nifer yn y gynulleidfa. Dyna elfen gref arall yn y diwygiadau o'r ddeunawfed ganrif ymlaen: y rhannu profiadau.

Y rheswm y daeth Blaenannerch i fod mor flaenllaw yn hanes y diwygiad oedd mai M. P. Morgan oedd y gweinidog. Erbyn hynny, yr oedd wedi bod yn weinidog ym Mlaenannerch ers pedair blynedd, er yn ŵr ifanc o hyd, yn 28 mlwydd oed, tua'r un oedran ag Evan Roberts, oedd yn 26 oed. Ymateb y gweinidog ifanc i'r hanes am y cyffro yn y Cei oedd sicrhau bod cyfarfod yn cael ei gynnal ym Mlaenannerch ddydd Iau, 29 Medi. Dyna'r digwyddiad penodol y cofir amdano heddiw, ond roedd y digwyddiad hwnnw mewn gwirionedd yn ailymweld â phrofiad oedd yn hen gyfarwydd erbyn hynny ac yn rhan o holl batrwm diwygiadau dros y canrifoedd.

# Encil Undydd y Weinidogaeth Iacháu

Ar fore heulog o Hydref braf oedd cael croesi'r Fenai i Encil y Weinidogaeth Iacháu yng Nghapel Rhos-y-gad, Llanfair-pwll. Diolch i chwiorydd y capel am baratoi paned a bisgedi ar ein cyfer yn y festri, ac i'r Parch. Ddr Alun Morton Thomas am ei groeso twymgalon. Hyfryd oedd dal i fyny â hanes y selogion a chyfarfod rhai newydd cyn i'n Llywydd, Arthur Rowlands, ein tywys i'r capel a'n croesawu'n ffurfiol.



Gosodwyd y cywair priodol gan y Parch. Ddr Alun Morton Thomas yn ei ddewis o ddefosiwn ac emyn, gyda John L. Edwards yn cyfeilio ar yr organ, a gwerthfawrogwyd y naws fyfyrgar a grëwyd.

Y Parch. Richard O. Jones arweiniodd yr Astudiaeth Feiblaidd, a gofynnodd inni ystyried yr hyn a ddywedir yn Eseia 61 fel sylfaen i'r Weinidogaeth Iacháu:

> Y mae ysbryd yr Arglwydd Dduw arnaf, oherwydd i'r Arglwydd fy eneinio i gyhoeddi newyddion da i'r tlodion, a chysuro'r toredig o galon.

Bu'n ein herio i ystyried cyfrifoldeb ein heglwysi i sefyll yn y bwlch a cheisio cynorthwyo'r Gwasanaeth Iechyd a dod â llesâd i'n cymunedau. Cafwyd trafodaeth ddifyr a rhai'n egluro'r math o weithgaredd a geir yn lleol i gefnogi'r bregus, e.e. Gofal Dydd Waungoleugoed, caplaniaeth mewn ysbytai, yn ogystal â'r ffordd y bu'r Arglwydd Iesu yn iacháu ym Mathew 4:

Dygasant ato yr holl gleifion oedd yn dioddef dan amrywiol afiechydon, y rhai oedd yn cael eu llethu gan boenau, y rhai oedd wedi eu meddiannu gan gythreuliaid, y rhai'n dioddef o ffitiau, a'r rhai oedd wedi eu parlysu; ac fe iachaodd hwy.

Cawsom nifer o enghreifftiau o emynau oedd yn sôn am iachâd. Ond rhaid oedd torri'r sgwrs yn ei blas gan fod toriad i gael cinio, pryd yr aethon ni ati i ysgrifennu cardiau i godi calon sawl un oedd wedi methu ymuno â ni oherwydd anhwylder.

Nerys Rowlands a'n harweiniodd yn y cyfnod Gweddi ac Eiriolaeth, a gosododd naws gymwys i'n myfyrdodau. Cyflwynwyd gweddïau dros nifer oedd yn dioddef a chwaraewyd cerddoriaeth dawel yn gefndir i gefnogi geiriau'r emyn:


> Ni fethodd gweddi daer erioed
>   â chyrraedd hyd y nef,
> ac mewn cyfyngder, d'enaid, rhed
>   yn union ato ef.

Diweddwyd y diwrnod gyda'r Parch. Ddr Alun Morton Thomas yn rhannu'r elfennau â ni a'n bendithio, a diolchodd ein Llywydd i bawb am encil unigryw.

*Nesta Davies*

## *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr*

gan Gareth Lloyd Jones
(Cyhoeddiadau'r Gair)




**Cyfres o astudiaethau gan y Parch. W. Bryn Williams ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* gan Gareth Lloyd Jones**

### 10 'Geni Obed (Ruth 4:13–22)

Cofiwn na chafodd Ruth hyd yn hyn blant fel gwraig i Mahlon, er ei bod wedi bod yn briod efo fo am tua deng mlynedd. Oes awgrym yma nad oedd ganddi'r gallu corfforol i feichiogi ynteu cyflwr iechyd Mahlon oedd yn gyfrifol am hyn? Mae angen darllen adnod 13 yn ofalus rŵan: "a pharodd yr ARGLWYDD iddi feichiogi". Mae'r cyfeiriad at Boas yn mynd 'i mewn ati' yn gyfeiriad cyffredin yn yr Hen Destament am ŵr a gwraig yn caru'n gorfforol.

Ond nid y weithred hon yn unig sy'n dod â phlentyn i Ruth a Boas. Yn hytrach geiriau'r awdur ydy mai 'yr ARGLWYDD' sydd yn hwyluso beichiogrwydd Ruth. Dyma enghraifft arall o drugaredd yr Arglwydd mewn perthynas â Ruth a Naomi yn ogystal â Boas. Ydych chi'n cofio'r un gair arbennig sy'n treiddio drwy'r llyfr? Y gair Hebraeg ḥe·seḏ (chesedd), sy'n golygu 'ffyddlondeb cariadus' ac sydd hefyd yn cael ei adnabod fel 'trugaredd'. Dyma 'drugaredd' mewn gwirionedd, gan mai canlyniad y 'ffyddlondeb cariadus' hwn ydy genedigaeth Obed bach. Roedd Ruth, gyda chymorth Duw, yn medru geni plant wedi'r cwbl.

Yn adnodau 14–15 wedyn, mae merched y ddinas yn llawenhau efo Naomi. Dyma'r merched oedd wedi ei gweld yn dod yn ôl o Foab yn drist. Bellach, mae merched Bethlehem yn medru tystio bod Naomi unwaith yn rhagor yn gwisgo ystyr ei henw, sef 'prydferth a hardd'. Dyma'r merched oedd wedi adnabod Naomi cyn ei cholledion enbyd ac yn sŵn geiriau hyfryd gwragedd Bethlehem, mae Naomi yn cymryd y bachgen bach, "a'i ddodi yn ei chôl a'i fagu". Y merched oedd wedi bod yn gymdogion iddi sydd hefyd yn enwi'r bachgen yn Obed – enw sy'n golygu 'gwas'.

Ia, Ruth, y ferch-yng-nghyfraith oedd yn "well na saith o feibion" (adn. 15) i Naomi. Ia, Ruth a ddangosodd gariad a thrugaredd amlwg at Naomi, sydd bellach wedi geni ŵyr (drwy berthynas) iddi. Ac wrth iddi ei fagu ar ei glin, gallwn ddychmygu efo hi fod yr hyn oedd yn chwerw o'r blaen (1:20) wedi troi'n hyfrydwch ei chalon.

Mae'r llyfr yn gorffen efo achau. Pam? Wel, i rai, mae achau'n medru bod yn ddiflas, ond nid i mi. Mewn achau rydym yn dysgu ac yn casglu gwybodaeth. Cawn wybod mwy am hynny'r tro nesaf.

**Cwestiwn i'w drafod**
Ym mha ffordd y mae Duw wedi'ch cyffwrdd yn yr adnodau hyn?

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 17 Tachwedd am 7:30yh – Mawredd yr Emyn**
Nia Roberts yn cyflwyno gwledd o ganu mawl o addoldai ledled Cymru. Cawn gyfle i fwynhau rhai o'n hoff emynau, yn cynnwys tonau poblogaidd fel 'Blaenwern' a 'Cwm Rhondda'. A bydd perfformiadau hudolus gan Ffion Emyr ac Ensemble Aberteifi.

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 17 Tachwedd, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Evan Morgan

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 17 Tachwedd, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Steffan Jones, Pontardawe




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

# Etholiad Arlywydd yr Unol Daleithiau



Dros yr haf bûm yn treulio dau fis Sabothol ’nôl yng Nghymru. Dyma’r tro cyntaf i mi gael cymaint o amser ’nôl yn yr henwlad ers imi adael i fyw yn America ’nôl yn 2004, ac roedd yn gyfle i ymweld â nifer o ffrindiau a theulu. Roedd e’n amser hefyd i ddilyn y newyddion, gan gynnwys yr etholiad cenedlaethol ym Mhrydain ddechrau’r haf. A dyna lle ces i dipyn o sioc. O’i gymharu â’r etholiad oedd yn digwydd adre yn yr Unol Daleithiau, roedd mor *civilized*. Cyn gynted â’i bod hi’n bosib gweld yr enillydd, wel dyna ni. I ffwrdd â’r prif weinidog i’r palas i ddweud ‘So long’ wrth y brenin. Ac mewn llai nag awr, mae’r boi newydd yn troi i fyny i ddweud, ‘Helô, a dyma fi’! Dim ffws, dim grwgnach dros beiriannau cyfrif pleidleisiau, dim mynd i gyfraith a dim 6 Ionawr 2021. Dyna beth yw gwareiddiad! Jyst cwpwl bach o wythnosau o bropaganda a ’nôl â ni i’r busnes o reoli’r wlad.

Nid felly mae hi o ble rwy i’n dod. Ar y foment rwy’n teimlo fy mod wedi byw mewn etholiad ers blynyddau maith, naill ai’n cwympo ma’s am yr un diwethaf neu’n paratoi at yr un nesaf. A dweud y gwir, rwy wedi blino’n lân! Rwy wrth fy modd yn dadlau am ddiwinyddiaeth a gwleidyddiaeth: mae’n ffordd o ddysgu a hogi’r meddwl ond mae’r blynyddau diwethaf yma rywsut wedi bod yn wahanol. Maen nhw wedi bod yn wahanol i filoedd, yn cynnwys pobl o ffydd a chred. Ac mae’n cynnwys canran uchel iawn o’r rhai sydd yn galw eu hunain yn Efengylaidd – ac rwyf fi’n un sy’n dal i weld fy hun yn y garfan honno. Yn y blynyddoedd diwethaf mae ’na densiynau amlwg wedi codi o fewn eglwysi o’r fath ym mhobman yn yr Unol Daleithiau – nifer fawr ohonynt yn ymwneud â chefnogaeth neu wrthwynebiad i Donald Trump, sydd wedi disgrifio’i hun fel amddiffynnydd Cristnogion America. Efalle mai gor-ddweud yw honni bod dros 80 y cant o Efengylwyr America yn pleidleisio iddo, ond eto, mae’n glir fod rhan enfawr ohonynt yn ei gefnogi. Mae hynny’n ormod i lawer, sy’n teimlo bod ei foeseg a’i ymddygiad yn hollol groes i foeseg y Beibl, sydd i fod yn ganolog i Efengylwyr a llawer iawn o Gristnogion eraill hefyd.

Yng nghanol y tensiynau yma mae llawer wedi penderfynu gadael y byd Efengylaidd ac eraill wedi cael eu gwthio allan am feiddio siarad gair yn erbyn Trump. I’r rhai sydd isie gwybod mwy am hyn, mae’n werth darllen llyfr newydd Tim Alberta, *‘The Kingdom, the Power and the Glory’: American Evangelism in an age of extremism* (2023). Felly, beth sydd wedi digwydd i blant ysbrydol Billy Graham a gondemniodd Clinton am ei berthynas â Monica Lewinsky yn y Tŷ Gwyn, ond sy’n awr yn fodlon anwybyddu a maddau pob rhyw sgandal o eiddo Trump? Beth sydd wedi newid?

Mae ’na lawer o atebion, rwy’n siŵr, i’r fath gwestiwn, ond un sy’n sefyll allan i mi yw’r duedd i gymysgu’r weledigaeth wleidyddol a’r weledigaeth Gristnogol. Ar adegau fe all y ddwy gydredeg, wrth gwrs, ond mae’r temtasiwn o gael y grym er mwyn cael eich ffordd yn un sy’n anodd ei osgoi. Mae’n hawdd cyfaddawdu, ‘dros dro’, efalle, er mwyn cael rhywbeth gwell yn y dyfodol. Ac er bod gennym i gyd le i gyfaddawdu, yn enwedig wrth geisio cydweithio mewn unrhyw lywodraeth, eto i mi ac eraill, mae ’na gyfaddawdu sy’n mynd yn rhy bell. Rwy’n dal i feddwl, er enghraifft, fod cymeriad yn hollbwysig i unrhyw arweinydd, Cristion neu beidio, ac yn enwedig mewn swydd mor bwysig ag Arlywydd yr Unol Daleithiau. Mae cymeriad da neu ddrwg yn ymddangos yng ngweithredoedd y person. Meddai Iesu Grist ar ddiwedd y Bregeth ar y Mynydd: “Dydy ffrwyth drwg ddim yn tyfu ar goeden iach, na ffrwyth da ar goeden wael” (Mathew 7:18).

Mae nifer dros y blynyddau wedi dweud fy mod i’n rhagfarnllyd pan fyddaf yn ysgrifennu fel hyn wrth drafod gwleidyddiaeth America. Wel, mae rhywfaint o ragfarn, mae’n siŵr, ond gobeithio fy mod ddim yn annheg a bod y pwyslais hwnnw’n seiliedig ar ddysgeidiaeth y Beibl ac esiampl Iesu Grist. Dyw hyn ddim yn golygu fy mod yn amharchu pob Cristion sydd wedi ei gefnogi. A dwi byth yn trafod o’r pulpud unrhyw beth am bwy y dylai’r gynulleidfa ei gefnogi chwaith. Rhaid cyfaddef bod y mwyafrif o’r rhai dwi’n eu nabod sy’n anghytuno â mi yn Gristnogion da ac uniawn, ac yn ffrindiau hefyd – pobl sydd eisiau gweld Cristnogaeth a chyfiawnder yn tyfu eto yn y wlad ac sy’n weithgar dros y tlawd a’r anghenus, ond sydd am ryw reswm yn ddall, yn fy marn i o leiaf, i wendidau Arlywydd newydd America.

*D. Kevin Adams*
*Uwch-weinidog*
*East Baptist Church*
*Lynn, Massachusetts*

# Sul Diogelu 17 Tachwedd 2024

Mae Sul Diogelu 2024 ar 17 Tachwedd i gyd-fynd ag wythnos diogelu yng Nghymru.

Os nad yw’r dyddiad hwn yn gyfleus i’ch eglwys chi, beth am ddewis dydd Sul arall, neu ddefnyddio rhan o’ch gwasanaeth arferol i godi ymwybyddiaeth am ddiogelu yn eich eglwys? Ni fydd y Panel Diogelu Cydenwadol yn cynhyrchu ei adnoddau ei hun eleni, oherwydd mae yna rai adnoddau Cymraeg ac adnoddau plant (Saesneg yn unig) ar gael drwy wefan Thirtyone:eight. Ewch i: safeguarding-sunday-2024-liturgical-material-welsh.pdf.

I gofrestru a lawrlwytho’r holl adnoddau newydd ar gyfer 2024, ewch i Gwefan Sul Diogelu.

Cofiwch hefyd fod adnoddau’r Panel Cydenwadol ar gyfer 2022 a 2023 yn dal ar gael, gan gynnwys dau ffilm: https://panel.cymru/cy/sul-diogelu


Cofiwch hefyd fod adnoddau’r Panel Cydenwadol ar gyfer 2022 a 2023 yn dal ar gael, gan gynnwys dau ffilm.

### Dyma’r Weddi Agoriadol o becyn adnoddau 2024

Dduw trugarog, ein lloches a’n nerth, amddiffynfa’r gwan, y blinderog a’r rhai dan orthrwm, deuwn atat â chalonnau gostyngedig a diolchgar. Am mai dy blant di ydym, gelwi arnom i fod yn debyg i ti, i godi llais dros hawliau pawb sy’n agored i niwed. Cynnal ni yn yr ymdrech i fod yn lle diogel i bawb. Bydded inni wrando ar y dolurus, dysgu gan esiampl Iesu a charu ein gilydd am i ti yn gyntaf ein caru ni. Amen.



# Pynciau Perthnasol – colofn Rosa Hunt
## Lletygarwch



Erbyn hyn, mae llawer o eglwysi a chapeli dros Gymru gyfan yn estyn allan i'w cymunedau gyda chymorth ymarferol. Yn y gorffennol roedd clwb plant neu bobl ifanc ym mwyafrif ein capeli, ond efallai eu bod nhw'n fwy tebygol heddiw o hysbysebu banc bwyd neu ganolfan glyd. Ac wrth gwrs mae hynny'n codi'r hen gwestiwn: rhannu'r efengyl mewn geiriau, neu mewn gweithredoedd cymdeithasol? Ai lle'r eglwys yw lleddfu tlodi mewn cymdeithas, pan fo cyfrifoldeb am les y cyhoedd yn nwylo'r llywodraeth? I gymhlethu pethau pellach, yn aml iawn mae agor canolfan glyd a derbyn arian o gronfa'r llywodraeth yn amodol ar beidio â 'chenhadu' (*proselytize*), felly ai bradychu Iesu Grist ydyn ni drwy estyn allan i'n cymuned heb rannu neges yr efengyl mewn geiriau?


Dwi'n meddwl bod y syniad hynafol o letygarwch yn gallu ein helpu ni heddiw wrth i ni feddwl am rôl yr eglwys yn ein byd cyfoes. Mae croesawu'r dieithryn yn un o orchmynion mwyaf cyson yr Hen Destament. Pwy yw dieithryn? Person nad ydy ef neu hi'n perthyn. Pan fyddwn ni'n edrych ar y bobl ddigartref ar ein strydoedd ac yn cymryd yr amser i wrando ar eu straeon, mae hyn yn dod yn amlwg. Roedden nhw'n arfer perthyn unwaith; cafodd pawb eu geni i rieni penodol, cafodd pawb eu magu mewn rhyw fath o gymdeithas – cartref, ysgol, teulu. Ond mae'r perthnasau wedi torri i lawr: weithiau oherwydd rhesymau yn hollol allan o'u rheolaeth nhw, fel rhyfel neu gam-drin; weithiau oherwydd camgymeriadau a phenderfyniadau annoeth. Erbyn hyn, dydyn nhw ddim yn perthyn, ac oherwydd nad ydyn nhw'n perthyn, dydy eu hanghenion beunyddiol o lety, bwyd, arian, ac yn y blaen ddim yn cael eu cyflawni.

Cyfrifoldeb y wladwriaeth yw bodloni anghenion corfforol dinasyddion, ac fel arfer mae'r llywodraeth yn croesawu ymdrechion elusennau (yn cynnwys eglwysi) i helpu yn yr ardal hon, am fod problem tlodi'n cynyddu yr un pryd ag y mae adnoddau ariannol y llywodraeth yn mynd yn llai. Ac yn aml iawn mae'r wladwriaeth yn gosod amodau a rheolau ar yr elusennau sydd eisiau helpu. Fel arfer, mae'r rheolau hyn yno i amddiffyn pobl fregus rhag cael eu cam-drin, ac mae'n bwysig i ni eu derbyn. Ond dydy'r wladwriaeth ddim yn gallu rhoi i'r dieithryn y rhodd o berthyn. Fel arfer, mae'r person digartref neu'r ffoadur neu'r fenyw sy'n ffoi oddi wrth gamdriniaeth yn derbyn *gwasanaethau:* lloches, bwyd, gofal meddygol. Ond nid yn derbyn y rhodd anhygoel o berthyn i deulu neu gartref, o fod yn rhan o gymuned lle mae pobl yn eu caru ac yn sylweddoli os nad ydyn nhw yno.

Mae eglwys sy'n ymarfer lletygarwch go iawn yn gallu adfer hunan-barch rhywun gan gynnig iddynt gymuned lle maen nhw'n perthyn. Pan fyddwn ni'n dechrau perthyn i gymuned, rydyn ni'n peidio bod yn ddieithriaid. Yn anffodus, mae 'na gymunedau peryglus, fel cymunedau sy'n radicaleiddio terfysgwyr, sy'n gallu denu pobl nad ydyn nhw'n perthyn. Ond mae'r eglwys ar ei gorau yn cynnig cymuned iach, yn llawn cariad, gras a maddeuant sy'n gallu newid rhywun o fod yn ddieithryn i fod yn ffrind. Felly, nid dim ond cael arwydd tu allan sy'n dweud 'Croeso i Bawb' y mae lletygarwch yn ei olygu (er y byddai'r arwydd yn ddechrau da!). Nid dim ond cael te a choffi ar ôl yr oedfa yw lletygarwch (er bod bisgedi o ansawdd da'n codi calon pawb!). Mae lletygarwch go iawn yn golygu cynnig i'r dieithryn le y mae ef neu hi'n gallu perthyn iddo.

Ac efallai mewn cymdeithas lle nad ydy mwyafrif y boblogaeth yn mynychu eglwys neu gapel, mae'n werth meddwl am letygarwch fel ffordd newydd o feddwl am genhadaeth. Mae anghenion pobl ddigartref yn fwy amlwg, efallai, ond mae ein byd ni (a'n heglwysi ni!) yn llawn pobl ag anghenion dwys: pobl unig, pobl â chwestiynau mawr am fywyd, pobl â salwch meddwl, pobl hŷn, pobl nad ydyn nhw'n teimlo fel eu bod nhw'n perthyn yn unman. Os ydyn ni'n dechrau meddwl am ein capel ni fel man lle mae pawb yn gallu perthyn – pa wahaniaeth fyddai hynny'n ei wneud i'n hoedfaon ar y Sul? I'n gweithgareddau? I'n hadeiladau? Cwestiynau i'w hystyried y Sul nesaf, efallai ...

I gloi, dyma her i chi: cerddwch o amgylch eich cymuned a sylwi ar rai pobl nad ydynt yn perthyn. Yna, gofynnwch i chi'ch hun: pa newidiadau y byddai angen i mi fy hun eu gwneud yn fy eglwys fel bod y bobl hyn yn teimlo eu bod yn perthyn?




Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru